

## Adroddiad Ymgynghori

**Teitl y Project:** Heol Pontpennau - Croesfan Sebra Ddyrchafedig  
**Rhif y Project:** CO17147

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar gynigion y cynllun uchod rhwng 24 Tachwedd 2017 ac 8 Rhagfyr 2017. Derbyniwyd dau sylw gan aelodau'r cyhoedd parthed y cynllun arfaethedig, nid oedd yr un o'r sylwadau yn gwrthwynebu'r cynllun arfaethedig.

Mae'r pryderon a'r sylwadau wedi eu crynhoi isod, ynghyd ag ymateb y Cyngor.

### Mater 1

*"Pryder Sustrans Cymru nad yw'r groesfan yn un dymunol i gerddwyr. Er mwyn ceisio gwella hyn, argymhell codi llwybr trwy ymyl y ffordd i alluogi pobl i gerdded yn syth i'r groesfan."*

### Ymateb

Mae'r llwybr cerdded presennol sy'n rhedeg rhwng Heol Pontpennau a Burwell Close yn ffurfio rhan o briffordd fabwysiedig y Cyngor. Adran Barciau'r Cyngor sydd berchen ar dir gerllaw y llwybr cerdded ac yn ei gynnal. Gan fod yna llwybr cerdded eisoes yn agos at leoliad y Groesfan Sebra Ddyrchafedig arfaethedig ni fyddem yn bwriadu cyflwyno llwybr cerdded newydd yn y lleoliad hwn, fodd bynnag, rydym wedi cysylltu ag Adran Barciau'r Cyngor i weld a gawn ni ledu'r llwybr cerdded presennol er mwyn gwella hygyrchedd ar gyfer defnyddwyr ar hyd y llwybr troed hwn a hefyd drefnu i docio unrhyw dyfiant uwchben y llwybr.

### Mater 2

*"Rwy'n llawn ddeall agweddau diogelwch ar y ffyrdd yn gysylltiedig â gosod croesfan sebra, fodd bynnag, carwn ofyn pa asesiadau a wnaed i ystyried effaith cynnydd mewn sŵn a dirgryniadau ar breswylwyr yn fy sefyllfa i. Gan fod llygredd sŵn gan draffig a bysiau yn y safle bws yn cynyddu drwy'r adeg, ni fyddwn yn dymuno gweld effaith bellach arnaf gan gerbydau yn arafu, dirgryniadau gan fysiau a cherbydau mwy a fydd yn gorfod tramwyo'r groesfan ddyrchafedig."*

*A ystyriwyd croesfan sebra arferol a fyddai, fe ymddengys i mi, yn gwneud y gwaith yn iawn heb yr angen i gael yr elfen ddyrchafedig?"*

## Ymateb

Er fy mod yn cydnabod y gall fod cynnydd mewn llygredd sŵn wrth gyflwyno nodweddion i arafu traffig yn y Ddinas, twmpathau ffordd yw'r unig ddull sydd ar gael i ni ar hyn o bryd i leihau cyflymder ceir yn effeithiol er mwyn gwella diogelwch ar y ffyrdd i ddefnyddwyr sydd yn agored i niwed.

Mae canllawiau'r Adran Drafnidiaeth ar rwystrau ffordd a dirgryniadau o'r ddaear yn seiliedig ar Safon Brydeinig 7385: Rhan 2 sy'n nodi gwerthoedd trothwy'r dirgryniadau a all achosi mân ddifrod cosmetig i adeiladau. Defnyddiwyd y gwerthoedd hyn i gyfrifo'r pellter lleiaf y gellir lleoli rhwystrau ffordd o anheddau, yn ôl natur y pridd. Mae'r tabl hwn yn dangos na ddylai hyd yn oed mân graciau ddigwydd oni bai fod twmpathau yn cael eu gosod llai na 4m i ffwrdd o annedd. Fodd bynnag, gan fod yr holl eiddo dan sylw y tu hwnt i'r pellter lleiaf a nodwyd yn y canllawiau, ystyrir na fyddai unrhyw ddifrod adeileddol yn cael ei achosi o ganlyniad i ddirgryniad.

## **Argymhelliad:**

Yn sgil yr adborth a dderbyniwyd, ac yn dilyn cefnogaeth fwyafrif yr Aelodau Ward Lleol, argymhellir bod y cynllun yn mynd rhagddo fel yr hysbysebwyd.